Fforwm Gweithwyr Chwarae 2011

Medi 12ed-13eg 2011

Yn dilyn llwyddiant y blynyddoedd diwethaf, mae'r Fforwm Gweithwyr Chwarae ar symud unwaith eto. Eleni, i leoliad newydd cyffrous yn Ne Cymru ar gyfer ein pumed blwyddyn – gyda Marc Armitage, Ben Tawil a llawer mwy o hyfforddwyr Gwaith Chwarae, addysgwyr a gweithwyr chwarae profiadol. Mae'r thema eleni'n cydnabod datblygiadau diweddar mewn darpariaeth chwarae yng Nghymru. Bydd y digwyddiad hwn yn canolbwyntio ar yr heriau a'r cyfleoedd y mae gweithwyr chwarae uniongyrchol a'u rheolwyr yn debygol o'u wynebu; ac mae'n anelu i ddelio ag ystod o anghenion hyfforddiant ar gyfer pawb sydd ynghlwm â throsglwyddo cyfleoedd chwarae mewn sefyllfaoedd cymunedol, gyda ffocws penodol ar dimau sy'n trosglwyddo darpariaeth chwarae peripatetig ac allgymorth.

chwarae plant
Supporting Children's Play

Fforwm Chwarae Gogledd Orllewin Cymru
North West Wales Play Forum

play wales chwarae cymru

chwarae GDC
gogledd ddwyrain cymru

Fforwm Gweithwyr Chwarae 2011

Mae'r Fforwm Gweithwyr Chwarae'n ddigwyddiad hyfforddi ar gyfer gweithwyr chwarae gweithredol – gwirfoddolwyr, gweithwyr chwarae rhan amser neu amser llawn, gweithwyr clybiau ar ôl ysgol, hyfforddwyr a myfyrwyr gwaith chwarae. Mae'r fforwm yn berchen i chi, Weithwyr Chwarae Cymru, ac mae'n brofiad awyr agored ymarferol – mae cyfranogwyr yn debygol o wlychu a baeddu, a bydd disgwyl ichi weithio'n galed a dod â'ch pabell eich hun (bydd nifer fechan o welyau ar gael eleni am dâl ychwanegol o £10 y person) – ond yn bennaf oll bydd cyfranogwyr (gobeithio) yn dysgu a chael HWYL!

Amcanion

Bydd Gweithwyr Chwarae sy'n gwneud y gorau o'r digwyddiad hwn yn:

- ennill cefnogaeth, o ran heriau a chyfleoedd, ar gyfer mabwysiadu agwedd gwaith chwarae mewn cymunedau
- deall sut i ddefnyddio asesu risg / budd mewn
- sefyllfaoedd ansicr o fewn darpariaeth chwarae
- deall sut a pham i fyfyrio ar eu harddull gweithio a chwarae plant er mwyn gwella eu harfer
- gwybod sut i ddarparu'r cwricwlwm gwaith chwarae yn eu sefyllfaoedd chwarae eu hunain
- ennill mwy o hyder wrth eiriol dros chwarae i
- amrywiol gynulleidfaoedd
- cael cyfle i gyd-berthyn damcaniaethau ac arferion gwaith chwarae cyfoes â'u sefyllfaoedd chwarae eu hunain
- magu mwy o hyder wrth weithio ag amrywiol offer, adnoddau a rhannau rhydd i gefnogi plant i greu mannau ble y gallant chwarae
- ennill syniadau a chefnogaeth gan gydweithwyr o sefyllfaoedd chwarae eraill yng Nghymru

Nodiadau Ymarferol

Darperir pob prif bryd bwyd a bydd te a choffi ar gael trwy gydol y digwyddiad. Bydd angen i gyfranogwyr ddod â phabell a sach gysgu gyda nhw yn ogystal ag unrhyw fyrbrydau neu ddiodydd angenrheidiol eraill. Gan mai digwyddiad awyr agored fydd hwn ni fydd modd inni gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Bydd hwyluswyr Cymraeg ar gael ond caiff y digwyddiad ei drosglwyddo trwy gyfrwng y Saesneg.

Mae hwn yn ddigwyddiad nad yw'n gwneud elw. Ymddiheurwn na fydd modd ichi ganslo unwaith inni gadarnhau eich archeb, ond fe wnawn ein gorau i'ch helpu i drosglwyddo eich archeb i gyfranogwr arall.

Cost y digwyddiad yw £110, ond ceir pris boregodwyr arbennig o £90 i unrhyw un sy'n archebu lle ar y digwyddiad hwn cyn 15ed Awst 2011. Mae hwn yn ddigwyddiad poblogaidd iawn – felly cofiwch archebu cyn gynted â bo modd. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn archebion fydd Medi'r 1af 2011.
Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei redeg gan Chwarae Plant mewn partneriaeth â NEW Play, Chwarae Cymru a Fforwm Chwarae Gogledd Orllewin Cymru.

Ffurflen archebu

llun-gopïwch ar gyfer mwy nag un person

Enw .....

Teitl swydd .....

Sefydliad .....

Cyfeiriad .....
.....
.....

Sir ..... Côd post .....

Ffôn.....Symudol .....

Ebost .....

Gofynion Mynediad / Deietegol .....
.....

Cais am wely Ie / Na (Nifer cyfyngedig – ar gyfer y cyntaf i'r felin!)

Sut i dalu
Amgaeëir siec (yn daladwy i Chwarae Plant)
Anfoner anfoneb at:
(os yn wahanol i'r manylion cyswllt)

.....
.....
.....

Bookings can be made by phone, post or email.
Please contact Allison Evans on:

Phone: (01443) 493321

Email: training@chwaraeplant.org.uk

Post: Chwarae Plant, 9a Gelliwastad Road, Pontypridd, RCT, CF37 2BW